



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

GADAEI CEFFYLAU A MERLOD A PHORI ANGHYFREITHLON: CYNLLUN GWEITHREDU

HYDREF 2013

Gadael Ceffylau a Merlod a Phori Anghyfreithlon: Cynllun Gweithredu

Cynllun Gweithredu

Cyflwyniad

Lansiwyd ymgynghoriad 8 wythnos dan y teitl '*Gadael ceffylau a merlod a phori anghyfreithlon - darparu ateb hirdymor*' gan Lywodraeth Cymru ar 4 Mawrth 2013. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd edrych ar y fframwaith deddfwriaethol presennol er mwyn gweld a yw'n mynd i'r afael â'r sefyllfa y mae awdurdodau lleol, gwasanaethau cyhoeddus ac eraill yn ei hwynebu ar hyn o bryd a nodi a oes bylchau y gallai Llywodraeth Cymru roi sylw iddynt er mwyn sicrhau bod gan awdurdodau gorfodi ffyrdd mwy priodol o ymdrin â gadael ceffylau a phori anghyfreithlon yng Nghymru.

Cafwyd 602 o ymatebion. Gwelwyd bod 60 o'r ymatebion yn dod o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig ac felly ni chawsant eu cynnwys wrth ddadansoddi'r ymgynghoriad. Roedd y 542 ymateb arall yn taflu cryn oleuni ar y broblem dan sylw ac ar sut y gallai Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill fynd i'r afael â'r mater. Yn ogystal â chryfhau neu ddatblygu deddfwriaeth, defnyddiodd llawer o ymatebwyr y cyfle i gyflwyno syniadau anneddfwriaethol eu natur ynghylch ystod o faterion sy'n ymwneud â cheffylau.

Mae'r atebion neu'r syniadau ychwanegol hyn wedi cael eu cofnodi yn y Cynllun Gweithredu a ganlyn a chynigir y dylid bwrw ymlaen â llawer o'r awgrymiadau hyn ochr yn ochr â Bil Rheoli Ceffylau (Cymru). Mae'r awgrymiadau wedi'u grwpio o dan y themâu a ganlyn, a rhoddir ymateb Llywodraeth Cymru i bob un ohonynt: Tiroedd Comin, Adnabod, Bridio a Pherchnogaeth, Addysg ac Ymwybyddiaeth, Lles, Canllawiau a Threfniadau Rheoli ac awgrymiadau Ad Hoc.

Mae'r argymhellion sydd yn y Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer ymdrin â nifer o wahanol faterion sy'n ymwneud â cheffylau hefyd yn cynnwys yr argymhellion hynny y cytunwyd arnynt gan Dasglu Ceffylau Cymru Gyfan (aelodau: Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y 4 Gwasanaeth Heddlu yng Nghymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r RSPCA.

Mesur llwyddiant

O'r 84 awgrym a gafwyd yn yr ymgynghoriad, mae 23 wedi cael eu derbyn, 27 wedi cael eu derbyn yn rhannol ac mae'r 34 sy'n weddill naill ai'n cael eu hystyried yn rhai nad yw'n briodol bwrw ymlaen â hwy neu maent eisoes yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o'r ymateb ehangach i bori anghyfreithlon.

Pennwyd amserlen ar gyfer rhoi ar waith y 50 argymhelliad y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â hwy - mae a wnelo'r rhain yn bennaf â chymau gweithredu gan randdeiliaid eraill yn ogystal â chymau gweithredu gan y Llywodraeth. Maent yn perthyn i 3 chategori - Tymor byr (B), Tymor Canolig (C) a Thymor Hwyl (H).

- Erbyn mis Mawrth 2014 rhaid i'r awgrymiadau Tymor Byr fod ar waith
- Erbyn mis Rhagfyr 2014 rhaid cyflawni'r awgrymiadau Tymor Canolig
- Erbyn mis Rhagfyr 2015 rhaid cyflawni'r awgrymiadau Tymor Hwyl yn eu cyflawnder

Credir y gellir rhoi 13 o'r awgrymiadau ar waith yn y tymor byr, 29 yn y tymor canolig ac 8 yn y tymor hir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod polisiau'n cael eu llunio er mwyn gwireddu cynllun gweithredu effeithlon ac effeithiol gyda golwg ar geffylau. Er mwyn gwneud hyn, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweithio'n glos gyda'i rhanddeiliaid a'i phartneriaid er mwyn sicrhau ym mhob achos ein bod yn canfod yr atebion mwyaf priodol i bob problem.

Ar y cyd â'r ddeddfwriaeth newydd, Bil Rheoli Ceffylau (Cymru), bwriedir i'r awgrymiadau isod a gafwyd wrth ymgynghori weithio ochr yn ochr â'r gyfraith newydd gan roi i'r awdurdodau gorfodi ac i bawb sy'n ymwneud â rheoli ceffylau yr holl arfau perthnasol i ymdrin â mater gadael ceffylau a phori anghyfreithlon.

TIROEDD COMIN

	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru	Derbyniwyd Do / Naddo / Yn Rhannol	Camau i'w cymryd a'r amserlen (Tymor Byr / Canolig / Hir)
1.	Gwell cysylltiad rhwng awdurdodau lleol a chominwyr mewn ardaloedd lle mae gadael ceffylau yn broblem fawr er mwyn gallu trefnu i symud merlod cominwyr cyfreithlon o'r comin am gyfnod byr er mwyn galluadnabod y rheini sy'n pori'n anghyfreithlon a'u symud oddi yno.	Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol / yr Heddlu a chyrff lles yn ystod gaeaf 2012 / 2013 i fynd i'r afael â merlod sy'n cael eu gadael ar droed comin yng nghymoedd y De. Cydnabyddir ei bod hi'n hanfodol ymgysylltu mwy â chominwyr er mwyn datrys y broblem.	D	Argymhelliad i gominwyr, Cymdeithasau Tir Comin ac Awdurdodau Lleol fwrw ymlaen ag ef yw hwn yn ei hanfod. Bydd Llywodraeth Cymru fodd bynnag yn helpu i hwyluso hyn drwy drefnu cyfarfod rhwng arweinyddion Awdurdodau Lleol ac arweinyddion y Cominwyr ledled Cymru er mwyn sbarduno'r broses. B
2.	Symud merlod cominwyr oddi ar dir comin yn ystod misoedd y gaeaf gan fod llawer ohonynt "yn methu goroesi'r amgylchiadau llym".	Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn rhoi dyletswydd gofal i'r sawl sy'n gyfrifol am anifail. Mae angen i gominwyr hefyd ddiwallu anghenion lles eu hanifeiliaid a symud y merlod hynny na allant wrthsefyll yr amgylchiadau llym oddi yno. Sylwer: Dylid cydnabod mewn rhai achosion nad yw'r ceffylau sy'n pori ar dir comin yn frodorol i'r ardal honno a'u bod naill ai wedi cael eu gollwng wedi'u gadael yno.	D	Mater i berchnogion merlod sydd â dyletswydd gyfreithiol i ofalu am les anifeiliaid yw hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i helpu'r rhai sy'n gyfrifol i ddeall eu dyletswyddau cyfreithiol. B

3.	Dylai pob tir comin gael system reoli er mwyn cadw trefn ar nifer y merlod sy'n pori yno; rheoli a rhyddhau stalwyni a rhaglen sbaddu fel na chaiff anifeiliaid isel eu gwerth nad oes ar neu eu heisiau eu geni.	Mae cynlluniau rheoli ar gael ar gyfer y tiroedd comin hynny sy'n dod o dan randdirymiad Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu gweld tiroedd comin eraill yn mabwysiadu system o'r fath drwy gyfrwng y gwahanol Gymdeithasau Tir Comin anffurfiol. Bydd rhoi Deddf Tiroedd Comin 2006 ar waith yn rhoi pwerau i gominwyr sefydlu Cynghorau Tiroedd Comin. D cyrff hyn fydd yn y sefyllfa orau i sefydlu systemau rheoli sydd er budd pawb ar yr holl diroedd comin.	D	Argymhelliad i gominwyr a Chymdeithasau Tiroedd Comin fwrw ymlaen ag ef yw hwn yn ei hanfod. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor am y materion hyn i helpu'r sawl sy'n gyfrifol i roi'r hyn a awgrymwyd ar waith. H
4.	Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â chominwyr ac adolygu cynlluniau rheoli milfeddygon er mwyn atal bridio amhriodol.	Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu'n rheolaidd â'r cyrff hynny sy'n dod o dan y rhanddirymiad adnabod ceffylau h.y. Cymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru a Chymdeithas Merlod y Carneddau. Mae'n ofynnol i'r ddau gorff gyflwyno cynlluniau rheoli blynyddol i Lywodraeth Cymru fel un o amodau cymeradwyo'r rhanddirymiad. Nid oes gofynion na chymhellion i'r tiroedd comin hynny sydd â merlod nad ydynt yn dod o dan delerau'r rhanddirymiad baratoi cynlluniau rheoli.	D	Gweler 3 uchod. C
5.	Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar "fodel y New Forest" i weld a oes modd dysgu gwersi am sut mae'r Verderers yn plismona "fforestwyr" sydd heb gofrestru sy'n rhoi ceffylau ar y comin/ yn y Goedwig heb drwydded, a sut maen nhw'n delio â	Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Verderers y New Forest yn ystod proses rhoi'r trefniadau Adnabod Ceffylau ar waith yn 2009 er mwyn deall y systemau a ddefnyddir yng nghyswllt rhanddirymiad y New Forest.	D	Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Verderers y New Forest i ddysgu gwersi ac i helpu i ledaenu arferion da ymhlith cominwyr a chyrff gorfodi yng Nghymru. C

	hwy.			
6.	Gosod arwyddion ar dir comin sy'n rhestru manylion cysylltu i'w defnyddio gan aelodau'r cyhoedd sy'n canfod anifail yn dioddef. Dylai perchnogion tir comin, Cymdeithasau Cominwyr ac awdurdodau lleol gadarnhau eu bod yn derbyn hyn er mwyn sicrhau cyfrifoldeb ac atebolrwydd.	Mae hyn yn cael ei gydnabod yn arfer gorau yn y Cynlluniau Rheoli a gyflwynwyd o dan randdirymiad Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009. Rhaid cynnwys manylion cysylltu ar gyfer pob tir comin yn y Cynlluniau Rheoli.	D	Mae Llywodraeth Cymru yn gweld manteision y cynllun hwn ac yn ei gefnogi, ond mater i'r cyrff a enwir fwrw ymlaen ag ef yw hyn. C
7.	Craffu'n fanylach ar y cominwyr hynny sy'n cael grantiau - Glastir /Trawsgydymffurfio ac ati.	Creffir ar y rhai sy'n cael arian o dan y Cynllun Taliadau Sengl a chynlluniau megis Glastir, gan gynnwys cael archwiliad i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y cynllun. At hynny, mae gan unrhyw un sy'n credu bod rhywun wedi torri'r rheolau yr hawl i riportio hynny i Lywodraeth Cymru, neu i ryw gorff gorfodi arall er mwyn iddynt ymchwilio i'r peth.	N	Nid yw Llywodraeth Cymru yn teimlo bod angen cymryd camau pellach yng nghyswllt yr awgrym hwn.
8.	Ffensio gorfodol ar dir comin yn enwedig lle mae perygl i rywun gael damwain ac i geffylau gael eu lladd. Cyflwyno camerâu cyflymder, arwyddion sy'n cofnodi nifer y ceffylau sy'n cael eu lladd mewn mannau peryglus penodol, arwyddion arafu a chamau i arafu cyflymder.	Oherwydd bod y tir yn dir comin, byddai angen i unrhyw un sy'n dymuno codi rhywbeth megis ffens (a fyddai'n atal mynediad) wneud cais i'r Arolygiaeth Gynllunio am ganiatâd i wneud hynny. Byddai cyflwyno camau arafu traffig yn fater i'r Awdurdod Priffyrdd fel rhan o ymgyrchoedd diogelwch y ffyrdd.	N	Gall unigolion neu gyrff eisoes fynd at yr awdurdodau priodol i awgrymu camau fel hyn. Nid oes angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.

ADNABOD

Nod deddfwriaeth pasbortau ceffylau yw sicrhau na all ceffylau sydd wedi cael eu trin â meddyginiaeth filfeddygol, y gwaherddir ei defnyddio mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, gael eu difa i'w bwyta gan bobl. Rhaid i berchnogion ceffylau gael pasbort ar gyfer pob ceffyl y maent yn berchen arno. Ers 1 Gorffennaf 2009, rhaid mewnblannu microsglodyn ym mhob ceffyl fel rhan o'r broses cael pasbort. Mae'r microsglodyn hwn yn cysylltu'r ceffyl â'i basbort.

	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru	Derbyniwyd Do / Naddo / Yn Rhannol	Camau i'w cymryd a'r amserlen (Tymor Byr / Canolig / Hir)
9.	Dylid gosod microsglodyn ym mhob ceffyl (dim rhanddirymiadau i geffylau lled-wyllt) gan roi sglodyn i ebolion adeg eu geni.	Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wrthi'n edrych ar fater adnabod ceffylau gyda'r bwriad o gyflwyno Rheoliad newydd yn 2014. Gosodir microsglodyn yn y rhan fwyaf o'r merlod lled-wyllt sy'n cael eu rheoli gan Gymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru gan fod hyn yn un o ofynion Cymdeithas y Brid ar gyfer eu cofnodi yn y llyfr gre.	Rh	Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynglŷn â'r newidiadau a gynigir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd y cwestiwn ynghylch a ddylid gosod microsglodyn ym mhob ceffyl ac a ddylid cadw rhanddirymiadau i geffylau lled-wyllt yn cael ei archwilio yn ystod y broses ymgynghori. C
10.	Dylai'r pasbortau fod ar fformat penodol nad oes modd ymyrryd ag ef.	Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wrthi'n edrych ar fater adnabod ceffylau gyda'r bwriad o gyflwyno Rheoliad newydd yn 2014. Mae'r cynigion yn cynnwys gwella fformat, ansawdd a safon y pasbortau sy'n cynnwys sicrhau nad oes modd ymyrryd â hwy.	D	Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n edrych ar safonau cynhyrchu pasbortau ceffylau. Bydd y gwaith hwn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y newidiadau y mae Ewrop yn debygol o'u pennu. Bwrir ymlaen ag unrhyw newidiadau

				fel rhan o'r diwygiadau disgwylidig i'r Rheoliadau Adnabod Ceffylau ac fe'u harchwilir yn ystod y broses ymgynghori. (Gweler hefyd 9) C
11.	Atal unigolion rhag swmp-brynu microsglodion. Dim ond trwy gyfrwng milfeddygon y dylai microsglodion fod ar gael, a dylai fod ganddynt hwy gyfrifoldeb cyfreithiol i gofnodi manylion y perchnogion a chyflwyno adroddiad yn eu cylch.	Mae hyn yn fater sy'n cael ei ystyried yn rhan o'r newidiadau a gynigir gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Adnabod Ceffylau.	D	Bwrir ymlaen â'r awgrymiadau hyn fel rhan o unrhyw ymgynghori ynghylch Adnabod Ceffylau yn y dyfodol pan fydd mater microsglodion yn cael ei ystyried. (gweler hefyd 9) C
12.	Dylai'r rhai sy'n gwneud cais am sglodyn neu basbort roi eu rhif Yswiriant Gwladol. Dylid rhoi'r rhif hwn hefyd pan fydd ceffyl yn cael ei drosglwyddo i berchennog newydd er mwyn ei gwneud yn haws olrhain ceffylau	Rhoddir ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud ag adnabod a throsglwyddo perchnogaeth fel rhan o'r rownd newydd o newidiadau i'r trefniadau adnabod ceffylau.	Rh	Bwrir ymlaen â'r awgrymiadau hyn fel rhan o unrhyw ymgynghori ynghylch adnabod ceffylau yn y dyfodol pan fydd mater diweddar perchnogaeth yn cael ei ystyried. (gweler hefyd 9) C
13.	Cael un corff canolog i ddarparu pasbortau, tebyg i'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) neu gael llai o gyrff. Cyflwyno safonau mwy llym ar gyfer sut mae'r cyrff yn gweithredu. Pan fydd y trefniant gwerthu'n un preifat, dylai'r gwerthwr a'r prynwr gyflwyno manylion llawn y newid	Fel rhan o ddiwygio'r rheoliadau Adnabod Ceffylau, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod cymwys gyhoeddi pasbortau. Ar hyn o bryd, mae'r Deyrnas Unedig yn disgwyl nes gweld cynnig manwl y Comisiwn Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cysylltu â'i gilydd ynghylch y meini prawf	D	Ar ôl gweld y cynigion drafft, bydd Llywodraeth Cymru yn cychwyn ymgynghoriad fel rhan o roi gofynion newydd yr Undeb Ewropeaidd ynghylch Adnabod Ceffylau ar waith. Yn ystod y broses, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried systemau priodol ar gyfer gwella'r

	perchnogaeth, gan ddilyn trefn debyg i drefn y DVLA pan fydd rhywun yn newid perchnogaeth car.	effeithlonrwydd y mae gofyn i'r Cyrff sy'n Darparu Pasbortau weithredu danynt.		cydymffurfio, er enghraifft, sut y dylid diweddarau gwybodaeth am drosglwyddo perchnogaeth. C
14.	Ailgyflwyno cronfa ddata ceffylau ar gyfer y Deyrnas Unedig drwyddi draw a fydd yn golygu bod modd olrhain symudiadau. Byddai hon wedi'i seilio ar fodel Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) a byddai pob newid perchennog yn cael ei gofnodi.	Mae cynigion y Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Aelod Wladwriaeth gadw cronfa ddata ganolog i gofnodi pob ceffyl. Ar hyn o bryd, nid oes gan Ewrop ddim cynigion ynglŷn â chofnodi symudiadau ar gronfa ddata.	Rh	Mae'r gronfa ddata'n un o'r pethau sy'n cael ei ystyried wrth adolygu'r Rheoliadau Adnabod Ceffylau. Bydd unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn digwydd drwy ymgynghori â'r diwydiant a'r awdurdodau gorfodi, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd yn sgîl defnyddio'r Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol (NED) a chan sicrhau bod gofynion trawsffiniol yn cael sylw llawn. C
15.	Gofyniad bod Arwerthwyr yn sicrhau bod ceffylau a werthir yn cael eu cofrestru yn enw'r perchennog / y gwerthwr a bod newid perchnogaeth ar ôl gwerthu'n cael ei gofnodi gan yr arwerthwr. Rhaid i hwnnw dynnu sylw cyrff swyddogol (PIO) at y ffaith bod yr wybodaeth wedi'i diweddarau.	Mae hyn yn digwydd eisoes mewn llawer o arwerthiannau lle y gwerthir y Bridiau gorau am fod PIO y Brîd yn bresennol yn yr arwerthiant, ond cydnabyddir bod hyn yn broblem mewn arwerthiannau cyffredinol lle na fydd y pasbortau ond yn cael eu trosglwyddo i'r prynwyr.	D	Bydd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Adnabod Ceffylau arfaethedig yn ystyried systemau priodol ar gyfer gwella'r cydymffurfio, megis cipio data a sut y dylid diweddarau a chofnodi gwybodaeth am drosglwyddo perchnogaeth. (gweler hefyd 9) C
16.	O ran ceffylau anhysbys sy'n pori'n anghyfreithlon: dylid gosod microsglodyn ynddynt	Bydd y cynnig i gyflwyno Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) yn cynnig mecanwaith i awdurdodau lleol ddelio â cheffylau	Rh	Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau newydd ynglŷn â delio â cheffylau sy'n

	a'u cofrestru dan enw perchennog y tir er mwyn helpu i'w gwerthu; dylid eu marcio â chwistrell er mwyn gallu eu hadnabod a'u gwarchod rhag cael eu dwyn; dylai'r awdurdodau gorfodi osod microsglodyn ynddynt pan ystyrir eu bod yn 'agored i niwed' er mwyn cofnodi symudiadau yn y dyfodol a helpu i adnabod y perchnogion; dylid darparu dull o adnabod ar unwaith unrhyw anifail sy'n anhysbys ond bod rhywun yn cyfaddef ei fod yn berchen arno; dylid eu hatafael a naill eu difa neu eu hailgartrefu a dylai'r perchennog newydd dalu am basbort.	anhysbys.		pori'n anghyfreithlon. Datblygir y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r Bil a thrwy ymgynghori â'r Elusennau Ceffylau ac ag awdurdodau lleol yng Nghymru. B
17.	Dylid defnyddio dulliau adnabod amgen a dylai pob un o'r rheini fod yn gysylltiedig â chronfa ddata gan gynnwys: • Dulliau amlwg (yn enwedig ar dir comin) megis rhewnodi ar yr ysgwydd / gwddf. • DNA • Tatŵs • Llosgnodi Carnau	Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn dweud yn benodol y dylid defnyddio microsglodyn i adnabod ceffylau neu unrhyw ddull arall o'u hadnabod sy'n cynnig gwarant wyddonol unigryw. Drwy gyflwyno deddfwriaeth yn y wlad hon, penderfynwyd bod gosod microsglodion yn cynnig gwarant o'r fath ac felly mae'n ofyniad bod microsglodyn yn cael ei osod ym mhob ceffyl sydd wedi cael pasbort er 2009. Caiff perchnogion benderfynu rhewnodi a byddem yn cefnogi hyn ar gyfer merlod ar dir comin er nad yw'n effeithiol ar gyfer adnabod merlod	N	Nid oes angen camau pellach ar hyn o bryd.

		gwyn neu lwyd. Mae DNA yn ddull drud iawn o adnabod ceffylau a byddai'n golygu costau ychwanegol i awdurdodau wrth iddynt gynnal profion adnabod a byddai hefyd yn golygu y byddai angen mwy o amser i adnabod y ceffyl yn bendant. Nid yw tatŵs / llosgnodi yn ddulliau hollol ddi-feth. Mae'n bosibl eu newid ac ni fyddent ychwaith yn cael eu hargymell o ran lles yr anifail. Mae angen ail-losgnodi'n rheolaidd am fod y nod yn diflannu wrth i'r ceffyl dyfu a hefyd, mae'n bosibl newid y nod.		
18.	Dylid nodi taldra, marciau, oedran a thystiolaeth ffotograffig ar y pasbort.	Mae llawer o'r Cyrff sy'n Cyhoeddi Pasbortau'n mynnu bod marciau'r ceffyl yn cael eu cofnodi (silwét) yn y pasbort er bod yr Undeb Ewropeaidd yn meddwl bod gosod microsglodyn yn ddigon. Mae blwyddyn geni'r ceffyl yn faes gorfodol, ond mae'n anodd hyd yn oed i'r perchnogion mwyaf profiadol wybod faint yw oed ceffyl. Gan fod gofyn i berchnogion gael pasbort i bob ceffyl erbyn iddo gyrraedd 6 mis oed neu erbyn 31 Rhagfyr ym mlwyddyn ei eni (pa un bynnag yw'r diweddaraf), byddai'n anodd cynnwys manylion taldra gan na fydd llawer o geffylau'n aeddfedu nes iddynt gyrraedd tua 6 blwydd oed. Yn yr un modd, ni fyddai ffotograffau bob tro'n dangos y ceffyl fel y mae oherwydd mae ebol yn newid cryn dipyn wrth aeddfedu'n geffyl a llawer un yn newid ei liw.	N	Nid oes angen camau pellach ar hyn o bryd.
19.	Cyfrannu at gost gosod	Penderfyniad masnachol yw bridio a rhaid i	N	Ni chredir mai mater i'r

	microsglodion yn gynnar mewn ebolion er mwyn cymell bridwyr a lleihau nifer yr ebolion sydd wedi'u diddyfnu ac sydd heb basbort.	berchnogion gynnwys costau'r broses adnabod yn rhan o'r broses fridio. Mae'n drosedd gwerthu ceffyl heb basbort ac felly, ni ddylai ebolion sydd wedi'u diddyfnu ymddangos mewn marchnadoedd /arwerthiannau heb gael microsglodyn a heb basbort.		Llywodraeth a'r trethdalwr yw hyn.
20.	Dylid rhoi tystysgrif geni a marwolaeth i bob ceffyl ynghyd a phasbort.	Mae'r Llywodraeth wrthi'n ceisio lleihau biwrocratiaeth ar hyn o bryd ac felly, fe allai ychwanegu gofynion o ran dogfennau gael ei weld yn rhywbeth gwrthgynhyrchiol. Bydd y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am basbort ac am gofnodi marwolaeth ceffyl yn cael ei chynnwys yn adolygiad y Comisiwn o'r Rheoliadau Adnabod Ceffylau.	N	Ni chredir bod angen i'r Llywodraeth gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
21.	Darparu mecanwaith i awdurdodau lleol / elusennau wneud cais am basbort newydd ar gyfer ceffyl a'i gael heb boeni bod pasbort wedi'i gyhoeddi ar ei gyfer o'r blaen.	Mae hyn yn bosibl eisoes ar yr amod bod rhywun yn dilyn y trefniadau gwirio priodol. Byddai unrhyw basbort newydd a gyhoeddi y tu allan i'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais yn cael ei farcio'n basbort dyblyg ac felly, byddai'r ceffyl yn cael ei farcio'n un sydd y tu allan i'r gadwyn fwyd.	N	Ni chredir bod angen i'r Llywodraeth gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
22.	Os bydd milfeddyg yn rhoi cyffuriau i geffyl sy'n golygu nad yw ei gig yn addas i'w fwyta gan bobl, fe ddylai'r milfeddyg hwnnw hicio clust y ceffyl.	Mae hyn yn cael ei ystyried yn llurguniad a byddai'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.	N	Nid yw'n briodol cymryd camau pellach yng nghyswllt yr awgrym hwn.
23.	Eithrio Elusennau a mudiadau lles sy'n rhoi lloches i geffylau rhag gorfod gosod microsglodyn ynddynt a chael pasbort ar eu cyfer.	Mae angen gallu adnabod pob ceffyl. Mae caniatáu rhanddirymiad i elusennau y tu allan i gwmpas Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009. Yn aml iawn, bydd elusennau'n gallu cael gwasanaeth	N	Mae'r cam a awgrymir yn amhriodol am y rhesymau a roddwyd.

		milfeddygon yn rhatach. Yn yr un modd, bydd llawer o'r Cyrff sy'n Cyhoeddi Pasbortau'n rhoi gostyngiad i'r elusennau hynny sy'n gwneud cais am un. Ar ôl rhaglen ailsefydlu a hyfforddi, bydd nifer o'r elusennau'n canfod cartref newydd i geffylau y maent wedi'u hachub - er mwyn i'r ceffylau hyn fod yn rhan o'r gymuned ehangach, byddai angen gallu eu hadnabod yn gywir.		
24.	Cynnal archwiliadau ar hap ar basbortau mewn iardiau, ar ffermydd, mewn canolfannau marchogaeth, ar gaeau sioeau ac ar fin y ffordd.	Dyma un o swyddogaethau awdurdodau lleol sydd eisoes yn cynnal archwiliadau o'r fath, a hynny ar hap ac wrth i sefyllfaoedd godi.	N	Nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hyn. Bydd y cyrff sy'n gyfrifol am hyn (Awdurdodau Lleol) eisoes yn cynnal archwiliadau o'r fath.
25.	Cynnal ymarfer i weld faint mae gadael ceffylau'n ei gostio o'i gymharu â chost gosod microsglodyn am ddim ym mhob ceffyl yng Nghymru.	Ni chedwir gwybodaeth yn ganolog am gost gadael ceffylau oherwydd bod sawl gwahanol asiantaeth yn ymwneud â'r peth: yr heddlu, y gwasanaeth tân, awdurdodau lleol, cyrff lles, amser y llys, milfeddygon ac ati. Serch hynny, mae'n gyfrifoldeb cyfreithiol ar berchnogion ceffylau i osod microsglodyn yn eu hanifeiliaid ac nid gwaith y Llywodraeth yw talu am hyn.	N	D perchennog, nid Llywodraeth Cymru na'r trethdalwr ddylai fod yn gyfrifol am gostau gosod microsglodion, ac am y costau eraill sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar anifail.

BRIDIO A PHERCHNOGAETH

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Lles Ceffylau yn sôn am y ddyletswydd gofal sydd ar berchnogion ceffylau neu'r rheini sy'n gyfrifol am geffylau wrth iddynt ofalu am eu ceffyl/ceffylau. Er nad yw'r cod ymarfer yn ymdrin yn benodol â bridio, mae angen i'r rheini sy'n ystyried bridio ceffylau sicrhau bod modd iddynt ddiwallu'r anghenion a restrir yn y Cod Ymarfer ar gyfer unrhyw geffyl sy'n cael ei fridio. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Elusennau Ceffylau wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd 'Meddyliwch cyn Bridio', sydd wedi pwysleisio cyfrifoldebau'r sawl sy'n cychwyn rhaglen fridio.

	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru	Derbyniwyd Do / Naddo / Yn Rhannol	Camau i'w cymryd a'r amserlen (Tymor Byr / Canolig / Hir)
26.	Dylai'r Codau Ymarfer ar gyfer Ceffylau gynnwys adran am fridio lle y gellir rhoi sylw i fater gorfridio.	Codau'n ymwneud â lles yn bennaf yw'r Codau Ymarfer ac nid ydynt yn trafod bridio na gorfridio.	Rh	Mae'r elusennau'n dal i godi mater gorfridio a sbaddu fel rhan o'u rhaglenni addysg. Gan weithio gyda'r Elusennau Ceffylau bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i helpu perchnogion ceffylau i ddeall y problemau y mae gorfridio'n eu hachosi a sut y gellir osgoi hyn. C
27.	Dylid symud ebolion heb eu sbaddu sydd ar dir comin oddi yno neu fe ddylid eu sbaddu er mwyn rheoli bridio afreolus; dylid cyflwyno cynllun sbaddu gorfodol er mwyn rheoli bridio a lleihau niferoedd; dylid sbaddu pob ebol yn 2 oed onid yw'n eiddo i fridiwr cofrestredig a dylid gwahardd stalwyni o bob tir comin.	Mae Deddf Tiroedd Comin 1908 yn darparu pwerau i symud oddi ar dir comin yr holl anifeiliaid (ebolion neu stalwyni) o unrhyw ddosbarth, disgrifiad neu oedran a ganfyddir ar dir comin yn groes i'r Ddeddf.	Rh	Mater i Berchnogion/Cominwyr a Chymdeithasau Tiroedd Comin yw hyn yn ei hanfod. Bydd Llywodraeth Cymru yn helpu i gryfhau ymwybyddiaeth o'r materion hyn (gweler 26) C
28.	Dylid tynhau'r rheolau ynglŷn â thrwyddedu ac adnabod stalwyni gan gynnwys: dylid trwyddedu pob ebol dros 12 mis oed;	Mae Cymdeithasau'r Bridiau'n mynnu bod ebolion yn cael eu trwyddedu at ddibenion bridio ac nid	N	Dim camau i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru.

	cyfyngu ar nifer yr ebolion /stalwyni y caiff unrhyw un bridwr eu trwyddedu; adnabod stalwyni drwy eu DNA er mwyn gallu adnabod eu hepil wedyn a dal y perchnogion yn atebol, a lle y gwyddys bod perchnogion yn gadael i'w ceffylau bori'n anghyfreithlon, dylid cofnodi samplau DNA eu stalwyni yn rhan o'u hamodau mechnïaeth	ydynt yn barod i gofrestru'r epil yn geffyl o dras os nad yw'r stalwyn wedi'i drwyddedu. Nid oes darpariaeth o'r fath ar gyfer y stalwyni hynny nad ydynt yn dod o dan reolau tras oherwydd ni fydd unrhyw epil a genhedlir ganddynt yn geffyl o dras ac felly yr unig basbort y bydd yn gymwys i'w gael fydd pasbort 'adnabod yn unig'. Mae nifer o Gymdeithasau'r Bridiau'n mynnu cael prawf DNA fel rhan o broses trwyddedu stalwyn er mwyn i hynny fod o gymorth i ddilysu'r epil. Ni fyddai'n bosibl o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i Lywodraeth Cymru gyfyngu ar nifer yr ebolion / stalwyni a ganiateid i unrhyw un bridwr. Nid yw'n hysbys gan amlaf o ble mae'r ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon yn hanu ac nid yw'n ofynnol trwyddedu stalwyni sy'n cael pasbort 'adnabod yn unig'.		C
29.	Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau ymgyrch i gynghori perchnogion i beidio â bridio	Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain wedi bod yn cynnal ymgyrch dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, sef 'Meddylwch Cyn Bridio'. Mae elusennau lles eraill yn cefnogi'r ymgyrch hon ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i orfridio fel sy'n briodol. Mae tystiolaeth ar gael bod nifer yr ebolion yn gostwng a bod	Rh	Gweler 26 C

		perchnogion cyfrifol yn ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r ffaith bod 'na ormod o geffylau.		
30.	Dylid gosod amodau ar gyfer bridwyr, delwyr a pherchnogion, gan gynnwys: cofrestru / trwyddedu pawb sy'n bridio ceffylau ac yn eu prynu a'u gwerthu a stablau hurio; rheoleiddio bridio gan wneud perchnogion yn atebol; cofrestru pob mangre a sefydliad lle y cedwir ceffylau a'u perchnogion; a thrwyddedu bridio ceffylau (fel y gwneir yn yr Almaen)	Drwy osod amodau ar rai sectorau o'r diwydiant (bridwyr a delwyr), byddai hynny'n golygu baich gwaith ychwanegol i awdurdodau lleol ac, er mwyn i hyn fod yn ystyrlon, byddai angen ei blismona. Byddai rheoleiddio'r diwydiant i'r graddau ag yr awgrymir yn golygu cost sylweddol i awdurdodau ac i drethlwyr a byddai angen sicrhau adnoddau digonol ar gyfer hyn. Credir mai'r diwydiant ei hun sydd yn y sefyllfa orau i godi safonau drwy ymgyrchoedd addysg. Er enghraifft, bydd Cymdeithas Ceffylau Prydain eisoes yn cynnal cynllun achredu gwirfoddol i stablau hurio / ysgolion marchogaeth.	N	Dim camau i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.
31.	Dylid rhoi prawf modd i berchnogion ceffylau er mwyn profi eu bod yn gallu gofalu am geffyl/ceffylau (tystysgrif cymhwysedd er enghraifft NVQ gyda'r posibilrwydd o Achredu Dysgu a Phrofiad Blaenorol). Yn ogystal â hynny, dylai perchnogion hefyd brofi bod ganddynt y cyfleusterau sy'n ofynnol er mwyn cadw ceffylau neu ddarparu tystiolaeth fan leiaf eu bod yn berchen ar dir neu'n ei rentu. Roedd llawer o'r farn ei bod yn rhy hawdd	Dylai unrhyw un sy'n ystyried cadw anifail feddu ar rywfaint o wybodaeth o leiaf am anghenion yr anifail a'r ymrwymiad sydd ei angen i ofalu amdano. Dylai'r sawl sy'n dymuno cael ceffyl geisio cyngor a byddai Llywodraeth Cymru yn annog perchnogion a darpar berchnogion i ddilyn hyfforddiant ffurfiol, a lle bo modd, i geiso cymwysterau.	N	Mae'r cyrff priodol yn ymwneud â chryfhau ymwybyddiaeth o'r materion hyn. Nid oes gofyn i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.

	i'r rheini sydd heb yr wybodaeth a'r ymrwymiad priodol na'r ymwybyddiaeth o anghenion lles ceffylau gael gafael ar geffyl. Dylai gwerthwyr gael eu gwneud yn gyfrifol am ofyn am achrediad cyn gwerthu ac eithrio lle bydd gan y prynwr dystiolaeth bona fide ei fod yn fridiwr / deliwr trwyddedig.	Mae'r rhain fwyaf o'r Elusennau Ceffylau'n hyrwyddo dulliau o ofalu'n dda am geffylau ac yn cyhoeddi taflenni a phamffledi am y pwnc. Byddai'n anodd sicrhau bod gwerthwyr yn gwybod sut mae gofyn am achrediad cyn gwerthu ac yn anodd iawn profi eu bod wedi gwneud hynny. Felly, byddai hyn yn gostus iawn i'w blismona ac ni fyddai unrhyw fudd amlwg yn deillio ohono.		C
32.	Gweithio gyda milfeddygon i wella'r cydymffurfio drwy sicrhau bod pob ceffyl yn cael ei gofrestru yn enw perchennog.	Hysbyswyd milfeddygon am eu cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Adnabod Ceffylau. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r ceffylau a ganfyddir yn pori'n anghyfreithlon o dan ofal milfeddyg ac nid yw'r rheini y credir eu bod yn berchen arnynt o reidrwydd yn barod iawn i ymwneud â'r proffesiwn milfeddygol.	Rh	Yn sgîl newidiadau arfaethedig y Comisiwn Ewropeaidd i'r trefniadau Adnabod Ceffylau, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau a fydd yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau milfeddygon. C
33.	Dylai'r rhai sy'n adhawlio ceffylau a ganfyddir yn pori'n anghyfreithlon orfod darparu prawf llawn mai hwy yw'r perchnogion.	Ar hyn o bryd, bydd awdurdodau lleol yn gofyn am basbort i brofi hawliad, ond mae llawer o'r ceffylau a atafaelir yn rhai nad oes ganddynt na microsglodyn na phasbort ac felly, bydd gofyn cael mathau eraill o brawf perchnogaeth.	Rh	Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ynglŷn ag ymdrin â cheffylau sy'n pori'n anghyfreithlon; bydd y canllawiau hyn yn cael eu datblygu ochr yn ochr â Bil arfaethedig Rheoli Ceffylau (Cymru) a thrwy ymgynghori â'r Elusennau Ceffylau ac ag awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd y canllawiau'n cynnwys opsiynau

				ynghylch sut orau mae penderfynu pwy yw'r perchennog. B
--	--	--	--	--

ADDYSG AC YMWHYBYDDIAETH

Mae'r Elusennau Ceffylau wedi bod yn rhagweithiol iawn yn datblygu pecynnau addysg i gryfhau'r ymwybyddiaeth o ddyletswyddau a chyfrifoldebau perchnogion o ran gofalu am geffylau. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld safonau'n codi ac mae wedi cyhoeddi Cod Ymarferer er Lles Ceffylau ac mae'n gweithio gyda'r Elusennau Ceffylau ac â rhanddeiliaid i ledaenu'r prif negeseuon.

	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru	Derbyniwyd Do / Naddo / Yn Rhannol	Camau i'w cymryd a'r amserlen (Tymor Byr / Canolig / Hir)
34.	Cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth wedi'i thargedu at ddeiliaid cyllidebau awdurdodau lleol, y llysoedd ac ati, i dynnu sylw at fater perchnogaeth ceffylau a phwysigrwydd a pherthnasedd y trefniadau adnabod.		D	Mae Cynllun ymgysylltu a chyfathrebu wrthi'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol lle bydd pwysigrwydd adnabod ceffylau'n cael ei bwysleisio drwy gyfrwng ymgyrch ymwybyddiaeth a fydd yn targedu perchnogion yn ogystal â'r cyrff gorfodi. C
35.	Darparu hyfforddiant ar gyfer swyddogion iechyd anifeiliaid Awdurdodau Lleol drwy ddarparu arian i gynnal hyfforddiant priodol ar ffurf rhaglen allgymorth.	Drwy'r Cynllun Lles Anifeiliaid Anwes 3 blynedd a sefydlwyd yn 2008, darparwyd hyfforddiant penodol ynghylch geffylau ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol er mwyn ymateb yn uniongyrchol i broblemau gadael ceffylau a diffyg dulliau adnabod. Mae'r Elusennau Ceffylau'n dal i ddatblygu pecynnau hyfforddi ac maent wedi cadarnhau eu bod yn barod i ddarparu hyfforddiant ychwanegol i awdurdodau lleol ledled Cymru.	Rh	Bydd Llywodraeth Cymru yn dal i gysylltu â'r Elusennau Ceffylau i ledaenu'r arferion gorau a bydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyrsiau a gynhelir gan elusennau i hyrwyddo'r manteision a gaiff awdurdodau gorfodi wrth fynd i ddigwyddiadau o'r fath. H
36.	Ymgyrch cyhoeddusrwydd ynghylch y	Mae Llywodraeth Cymru wedi	D	Yn sgîl y newidiadau i'r

	gofyniad i osod microsglodion a'r cosbau y bydd perchnogion ceffylau'n eu hwynebu os na fyddant yn gwneud hynny.	parhau i roi cyhoeddusrwydd i ofynion y Rheoliadau Pasbortau gan ei gwneud yn glir beth sy'n ofynnol gan berchnogion gyda golwg ar unrhyw geffylau y maent yn berchen arnynt. Yn ogystal â hyn, mae'r codau Ymarfer yn cynnwys adran am adnabod ac am gyfrifoldebau perchnogion.		rheoliadau Adnabod Ceffylau a gynigir gan y Comisiwn Ewropeaidd, bydd cynllun cyfathrebu'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r Rheoliadau Pasbortau Ceffylau a fydd yn tynnu sylw at gyfrifoldebau perchnogion i sicrhau pasbort cywir ar gyfer eu ceffylau a gosod microsglodion ynddynt. Cyn hyn, bydd y Cynllun Cyfathrebu sy'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol yn cynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd pasbortau a gosod microsglodion. Bydd Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol ar y cyd â sefydliadau partner i gynnal diwrnodau gosod microsglodion / profion iechyd, tebyg i'r rheini a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ac yn Abertawe yn ystod 2013. C
37.	Cyfnod amnesti mewn ardaloedd lle nad yw'r cydymffurfio wedi bod yn dda yn y gorffennol.	Mae elusennau wedi cynnal nifer o ddiwrnodau gosod microsglodion / profion iechyd mewn ardaloedd lle nad yw'r cydymffurfio'n dda, ac mae awdurdodau lleol wedi cefnogi'r rhain a Llywodraeth Cymru wedi'u cymeradwyo.	Rh	Bydd y Cynllun Cyfathrebu sy'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol yn hyrwyddo'r gofyniad i gael pasbort a gosod microsglodion. Bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog i ymuno ag Elusennau Ceffylau i gynnal

				diwrnodau gosod microsglodion / profion iechyd yn yr ardaloedd hynny lle mae 'na nifer fawr o geffylau ac y credir bod diffyg cydymffurfio. C
38.	Mae angen i bob parti ymwneud rhagor â theithwyr ac â'r gymuned deithiol. Mae angen rhagor o ymgysylltu drwy gyfrwng y sector Gwirfoddol, gan gynnwys darparu rhaglen addysg.	Is-adran Dyfodol Tecach Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Sipsiwn a Theithwyr ac mae hynny'n cynnwys datblygu Strategaeth Sipsiwn a Theithwyr Cymru Gyfan ynghyd â darparu gwasanaeth Ysgrifenyddol ar gyfer Gweithgor y Swyddogion Sipsiwn a Theithwyr.	D	Bydd elusennau eisoes yn ymgysylltu â Sipsiwn a Theithwyr ac maent wedi dyfeisio rhaglenni addysg i gryfhau ymwybyddiaeth ynghylch bod yn berchen ar geffyl. Fel rhan o'r Cynllun Cyfathrebu, sy'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol, bydd swyddogion sy'n delio â phori anghyfreithlon ac adnabod Ceffylau fel rhan o'u gwaith yn parhau i weithio gyda'u cydweithwyr yn Isadran Dyfodol Tecach Llywodraeth Cymru ar yr ymgyrch addysg / ymwybyddiaeth i Sipsiwn a Theithwyr. H
39.	Dylid ychwanegu addysg orfodol ynghylch gofalu am geffylau, addysgu perchnogion a darpar berchnogion, cyhoeddusrwydd am y costau sylweddol sydd ynghlwm wrth ddiwallu anghenion lles ceffylau, at y cwricwlwm cenedlaethol. At hynny, mae angen cael gwasanaeth allgymorth	Mae'r Elusennau Ceffylau'n darparu llenyddiaeth sydd ar gael yn rhwydd am bob agwedd ar ofalu am geffylau ac mae 'na gryn dipyn o wybodaeth ar y rhyngwrdd, ynghyd â nifer o gylchgronau am geffylau ac amrywiaeth helaeth o lyfrau ar gael	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.

	milfeddygol symudol ar y cyd rhwng Awdurdodau Lleol / y trydydd sector, cyngor i berchnogion ac addysgu'r gymuned ynghylch cadw ceffylau mewn ardaloedd trefol ac ar aberoedd a'u cadw'n amhriodol ar dennyn.	am y pwnc. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Codau Ymarfer sydd wedi cael eu darparu ar gyfer perchnogion ceffylau, milfeddygon ac Elusennau Ceffylau. Bydd Awdurdodau Lleol a'r RSPCA yn benodol yn darparu copïau ar gyfer y perchnogion hynny sydd â'u hangen fwyaf.		
40.	Ymgyrch gyhoedduswydd i dynnu sylw at yr anawsterau sy'n wynebu elusennau ceffylau / Awdurdodau Lleol a thirfeddianwyr yn sgîl pori anghyfreithlon. Cyhoeddi ystadegau am atafaelu ac ewthanasia er mwyn manteisio ar ddymuniad y rhai sy'n caru ceffylau / y cyhoedd i weld newid.	Mae'r cyfryngau wedi rhoi cyhoedduswydd i ffawd llawer o'r ceffylau hynny a ganfyddir yn pori'n anghyfreithlon. Mae llawer o raglenni teledu wedi archwilio'r pwnc ac mae'r wasg arbenigol a'r wasg leol wedi rhoi sylw helaeth i'r broblem. Mater i awdurdodau gorfodi unigol yw ystadegau am atafaelu ac ewthanasia ac nid yw'r rhain yn cael eu cadw'n ganolog.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.

LLES

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y sawl sy'n berchen ar anifail neu'n gyfrifol amdano i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion lles yr anifail yn cael eu diwallu. Mae'r gyfraith yn dweud ei bod yn rhaid cymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod yn cael amgylchedd addas i fyw ynddo; ei fod yn cael deiet iach; ei fod yn gallu ymddwyn yn normal; bod ganddo gwmni priodol a'i fod yn cael ei warchod rhag poen, dioddef a chlefyd.

	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru	Derbyniwyd Do / Naddo / Yn Rhannol	Camau i'w cymryd a'r amserlen (Tymor Byr / Canolig / Hir)
41.	Gwahardd ffeiriau merlod ac arwerthiannau heb eu rheoleiddio.	Mae angen i'r sawl sy'n cynnal digwyddiadau o'r fath gydymffurfio â'r gofynion a bennir yng Ngorchymyn Cynulliadau Anifeiliaid 2013 a Gorchymyn Lles Ceffylau mewn Marchnadoedd (ac mewn mannau Gwerthu eraill) 1990. O dan y darnau hyn o ddeddfwriaeth, mae dyletswyddau ar y rhai sy'n trefnu'r digwyddiadau hyn, yn ogystal ag ar y rhai sy'n bresennol yno'n prynu ac yn gwerthu ceffylau..	Rh	Mater i'r sawl sy'n cynnal digwyddiadau o'r fath yw hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn dal i weithio gydag awdurdodau lleol ac Elusennau Ceffylau gyda'r nod o sicrhau bod trefnwyr digwyddiadau o'r fath yn gwybod ac yn deall eu cyfrifoldebau gyda golwg ar les anifeiliaid a deddfwriaeth Adnabod Ceffylau er mwyn codi safonau a gwella'r cydymffurfio. C
42.	Gwahardd cadw ceffylau ar dennyn oherwydd bod hyn yn cyfrannu at safonau gwael a phroblemau lles am ei fod yn annog pobl i brynu ceffyl am ychydig bunnoedd heb fod ganddynt ragor o adnoddau i ofalu amdano.	Nid yw cadw ceffylau ar dennyn yn anghyfreithlon; serch hynny, cydnabyddir bod hwn yn faes lle mae angen addysgu pobl a chreu ymwybyddiaeth ymhlith y carfannau hyn o'r gymdeithas sy'n cadw'u	Rh	Mae'r Elusennau Ceffylau'n dal i godi mater cadw ar dennyn fel rhan o'u rhaglenni addysgu. Gan weithio gyda'r Elusennau Ceffylau, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i

		hanifeiliaid ar dennyn fel mater o drefn. Mae Cod Ymarfer y Llywodraeth er Lles Ceffylau yn cynnig cyngor a chanllawiau i berchnogion/ceidwaid ceffylau, gan gynnwys canllawiau ynglŷn â chyfrifoldebau'r rheini sy'n cadw'u ceffylau ar dennyn.		berchnogion ceffylau'n eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau H
43.	Datrys mater pori ar aberoedd, tir y bydd Awdurdodau Lleol yn ei alw'n 'dir neb' sy'n arwain at fethu ag ymateb i bryderon ynglŷn â lles. Rhagor o swyddogion lles ceffylau i fonitro ardaloedd comin a chorsydd llanw. Rhagor o fonitro ar y boblogaeth geffylau drefol yn Abertawe.	Bydd yr Elusennau Ceffylau yn monitro ac yn ymateb i adroddiadau'r cyhoedd am geffylau a welir yn pori mewn ardaloedd amhriodol.	Rh	Mae Cynllun ymgysylltu a chyfathrebu wrthi'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol a bydd hyn yn cynnwys pwysigrwydd dynodi tir pori priodol. C
44.	Sefydlu gwarchodfeydd ceffylau'n brosiectau cymunedol i ymdrin â'r nifer fawr o geffylau sy'n cael eu hatafael.	Mae nifer o elusennau lles ceffylau eisoes sydd i gyd yn cystadlu am swm cyfyngedig o arian gan gefnogwyr. Ni chredir mai'r ateb yw sefydlu elusen arall eto oherwydd ni fyddai hyn ond yn creu bwch dihangol i'r rheini sy'n gadael eu ceffylau dro ar ôl tro neu'n gadael iddynt bori'n anghyfreithlon. Yr hyn sydd ei angen yw newid ymddygiad sy'n gwneud pawb sy'n berchen ar geffyl yn atebol am ei weithredoedd..	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
45.	Trefnu i ddifa ceffylau isel eu gwerth mewn ffordd drugarog sydd wedi'i rheoleiddio'n dda..	Mater i berchnogion unigol yw gwaredu ceffylau; mae canllawiau ar gael gan y rhan fwyaf o'r elusennau ceffylau ynghylch sut mae gwneud y	Rh	Mae Cynllun Cyfathrebu'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol a fydd yn ystyried sut y gellid darparu

		penderfyniad iawn a pha fath o ewthanasia i'w ddefnyddio. Nid gwaith y Llywodraeth yw trefnu i ddifa'r hyn a ystyrir yn geffylau isel eu gwerth..		ymgyrch addysg er mwyn gwneud perchnogion ceffylau'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u dyletswydd gofal. Bydd ymgyrch ymwybyddiaeth hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd meddwl cyn bridio er mwyn lleihau'r boblogaeth geffylau. C
46.	Defnyddio codau ymarfer er mwyn cyflwyno hysbysiadau gwella ystyrion.	Mae Codau Ymarfer Llywodraeth Cymru wedi cael eu dosbarthu'n helaeth i berchnogion ceffylau, Awdurdodau Lleol, milfeddygon ac Elusennau Ceffylau.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
47.	Gwahardd am oes y rheini a geir yn euog o adael i'w ceffylau bori'n anghyfreithlon rhag bod yn berchen ar geffyl.	Mater i'r Llysoedd yw penderfynu beth fydd y gosb ar ôl erlyn achos.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.

CANLLAWIAU / TREFNIADAU RHEOLI

Mae'r adran hon yn trafod y trefniadau gweithredol y bydd awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill yn gweithio danynt

	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru	Derbyniwyd Do / Naddo / Yn Rhannol	Camau i'w cymryd a'r amserlen (Tymor Byr / Canolig / Hir)
48.	Marchnadoedd / Arwerthiannau • Mwy o reoleiddio ac archwiliadau mewn Marchnadoedd ac Arwerthiannau er mwyn sicrhau bod perchnogion yn cydymffurfio â'r trefniadau adnabod drwy bresenoldeb safonau lles / masnach. • Ailwampio'r cyfleusterau a safonau trinwyr mewn marchnadoedd. • Rhybuddio'r sawl sy'n cyflwyno ceffylau nad ydynt yn ffit i'w gwerthu a'r arwerthwyr hynny sy'n rhoi anifeiliaid o'r fath drwy'r cylch. • Gwahardd gorlenwi llociau. • Gwahanu cesyg ac ebolion a stalwyni	Mae Gorchymyn Lles Ceffylau mewn Marchnadoedd (ac mewn Mannau Gwerthu Eraill) 1990 yn rhestru'r darpariaethau ar gyfer marchnadoedd a'r sawl sy'n eu gweithredu. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys gofynion cyfreithiol gyda golwg ar roi ceffylau mewn llociau, eu gwahanu a'u trin ac ati. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Safonau Masnach Powys er enghraifft i sicrhau bod Arwerthiannau Ceffylau drwy'r sir yn cydymffurfio â'r drefn.	Rh	Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud gyda golwg ar D Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) a'r newidiadau arfaethedig ym maes Adnabod Ceffylau yn arwain at ddatblygu cynlluniau cyfathrebu a fydd yn tynnu sylw at yr angen i gynnwys mannau gwerthu'n faes lle y gellir monitro'r cydymffurfio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chydag Elusennau Ceffylau gyda golwg ar weithdrefnau monitro mewn marchnadoedd ac arwerthiannau. H
49.	Darparu cyfleusterau priodol i awdurdodau lleol eu defnyddio i atafaelu ceffylau megis cyfleusterau diogel, iardiau gwyrdd er mwyn sicrhau llai o oedi wrth atafaelu anifeiliaid. Hefyd, darparu uned difa	Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu ac ariannu cyfleusterau diogel i gadw anifeiliaid.	D	Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Awdurdodau Lleol drwy Dasglu Ceffylau Cymru Gyfan er mwyn

	symudol sydd ar gael i awdurdodau lleol er mwyn gallu difa ceffylau mewn ffordd ddynol yn y fan a'r lle.			sicrhau bod cyfleusterau fel hyn ar gael pan fydd gofyn. B
50.	Rhoi cyhoeddusrwydd i fanylion cysylltu er mwyn i'r cyhoedd eu defnyddio wrth riportio pori anghyfreithlon er mwyn sicrhau eu bod yn cysylltu â'r bobl iawn - yr Awdurdod Lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Elusennau, gan gynnwys gweithredu gwasanaeth y tu allan i oriau.	Mae'r rhifau cysylltu ar gyfer Crime Stoppers a rhif 101 yr Heddlu eisoes ar gael i'r cyhoedd.	Rh	Bydd y canllawiau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Bil yn cynnwys argymhellion i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ynghylch pwy y dylid cysylltu a hwy i riportio pori anghyfreithlon neu adael ceffylau. Bydd y cynllun Cyfathrebu arfaethedig yn cynnig gwybodaeth i berchnogion tir ac i'r cyhoedd. B
51.	Sefydlu dull i gyfathrebu'n effeithiol â'r llu o grwpiau lles anifeiliaid sy'n ymwneud â'r peth ledled Cymru, y rhan fwyaf ohonynt ar-lein.	Mae angen i'r holl grwpiau perthnasol gael yr wybodaeth ddiweddaraf a gallu rhannu gwybodaeth, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd pori anghyfreithlon, fel rheol, yn digwydd amlaf.	D	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod ag aelodau eraill Tasglu Ceffylau Cymru Gyfan a Rhwydwaith Anifeiliaid Cymru ynghylch sut y gall Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr Heddlu ac elusennau lles wella'r trefniadau cysylltu a'r adrodd, gan gynnwys o bosibl sefydlu cyfeiriad e-bost canolog i rannu cuddwybodaeth. B
52.	Datblygu dull cydlynol rhwng yr holl asiantaethau ac ar draws ffiniau daearyddol gan gynnwys sefydlu protocol ar gyfer gwaith trawsffiniol rhwng awdurdodau lleol.	Mae'r mecanweithiau presennol, megis Tasglu Ceffylau Cymru Gyfan wedi helpu i ddatblygu'r arferion gorau ar draws Asiantaethau a ffiniau awdurdodau lleol.	D	Bydd Llywodraeth Cymru yn dal i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chydag Asiantaethau eraill perthnasol i sicrhau bod y

				protocol a ddatblygwyd yn sgîl y problemau a gododd gaeaf diwethaf yn cael eu datblygu a'u lledaenu i sicrhau'r arferion gorau. B
53.	Datblygu fframwaith rheoleiddio sy'n creu ymagwedd gyson at orfodi'r Rheoliadau Adnabod Ceffylau. Sefydlu a chytuno ar ganllawiau i'r holl asiantaethau gorfodi a gosod safonau gofynnol cyson.	Mae gwaith partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r asiantaethau gorfodi wedi digwydd drwy gyfrwng Tasglu Ceffylau Cymru Gyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i gysylltu â swyddogion yn y Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch cynigion arfaethedig y Comisiwn sy'n ymwneud ag adnabod ceffylau.	D	Ar ôl gweld y cynigion drafft, bydd Llywodraeth Cymru yn cychwyn ymgynghoriad fel rhan o roi gofynion newydd yr Undeb Ewropeaidd ynghylch Adnabod Ceffylau ar waith. Fel rhan o'r broses honno, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried systemau priodol ar gyfer gwella'r cydymffurfio ac yn gosod safonau gofynnol cyson ar gyfer pob asiantaeth gorfodi. C
54.	Bod Milfeddygon AHVLA yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol ac yn darparu datganiadau tystion er mwyn gallu erlyn yn effeithiol.	Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol fydd yn rheoli'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac AHVLA gyda golwg ar yr hyn y bydd AHVLA yn ei wneud a'i gyflawni yng Nghymru.	D	Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi siarad â'u cymheiriaid yn AHVLA yn sgîl yr awgrym hwn ac mae AHVLA yn ystyried sut orau mae bwrw ymlaen â hyn. C
55.	Cyflogi Wardeniaid Ceffylau neu dîm arbennig i orfodi'r gyfraith ynghylch ceffylau a hynny ar sail Cymru Gyfan. Cyflogi archwilwyr iechyd anifeiliaid ychwanegol o fewn adrannau lles anifeiliaid sy'n ymwneud yn benodol â'r	Ar hyn o bryd, gwelir yr arferion gorau ar waith wrth i wardeniaid ceffylau a swyddogion lles anifeiliaid ymuno i gynorthwyo awdurdodau cyffiniol. Mae'r gwaith partneriaeth hwn wedi golygu bod pawb dan sylw wedi gallu defnyddio'r adnoddau	Rh	Bydd gwaith partneriaeth yn parhau drwy gyfrwng Tasglu Ceffylau Cymru Gyfan lle bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu

	gwaith hwnnw gan greu cysylltiad rhyngddynt ac elusennau lles anifeiliaid er mwyn meithrin gwaith partneriaeth.	sydd ar gael yn y ffordd orau posibl. Mae elusennau wedi darparu hyfforddiant ac maent yn dal i ddatblygu pecynnau i gynorthwyo'r rheini sy'n gorfod gorfodi'r rheoliadau.		mabwysiadu ar draws awdurdodau. C
56.	Mae gofyn cael canllawiau clir ynghylch ystyr 'cyfnod absenoldeb y perchennog neu'r ceidwad', ac ynghylch y cyfnod trothwy a fyddai'n cael ei ystyried yn rhy hir o ran cadw at yr arferion gorau.	Mae'r Cod Ymarfer er Lles Ceffylau yn dweud pa bryd y dylai ceffylau gael eu harchwilio o dan y pennawd 'goruchwyliaeth'.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
57.	Rhoi canllawiau clir i'r heddlu ynglŷn â haparchwilio pasbortau er mwyn sicrhau bod perchnogion yn cydymffurfio a bod ganddynt brawf perchnogaeth wrth gludo anifeiliaid.	Mae addysg ynghylch adnabod ceffylau wedi cael ei chynnig ac yn dal i gael ei chynnig i Heddluoedd er mwyn eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r system pasbortau, gan gynnwys dehongli'r telerau.	Rh	Bydd y cynllun ymgysylltu a chyfathrebu a ddatblygir ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol yn ystyried sut y gellid rhoi ymgyrch addysgu ar waith er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n gorfodi'r rheoliadau adnabod ceffylau yn gwybod sut y dylent ddehongli'r ddeddfwriaeth a'i rhoi ar waith. Ar hyn o bryd mae'r Elusennau Ceffylau gwneud cymwynas fawr wrth ddatblygu cyfres o fodiwlau addysg. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r elusennau ddarparu'r rhain ar gyfer yr Heddlu ac asiantaethau gorfodi eraill yn ôl y gofyn. C
58.	Datblygu cynlluniau wrth gefn a chanllawiau i'r rheini y mae pori	Mae nifer o erthyglau ar Bori Anghyfreithlon wedi cael eu	D	Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer y

	anghyfreithlon yn effeithio arnynt.	cyhoeddi gan Llywodraeth Cymru yn y cyhoeddiad 'Gwlad' sy'n rhoi cyngor i berchnogion tir am y camau i'w cymryd ac mae hynny wedi cynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i rif 101 yr Heddlu a rhif Crime Stoppers.		rheini yr effeithir arnynt a bydd y rhain yn rhan o'r Cynllun Cyfathrebu sy'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol. B
59.	Gorfodi canllawiau statudol ac amodau ar awdurdodau lleol ar gyfer gweithdrefnau gweithredu safonol er mwyn sicrhau nad yw'r broblem yn symud i awdurdod lleol cyffiniol.	Bydd y Bil arfaethedig yn berthnasol i Gymru gyfan, ac yn rhoi'r pwerau i awdurdodau lleol sicrhau nad yw'r broblem yn symud i awdurdod lleol cyffiniol.	Rh	Cyhoeddir dogfen ganllawiau ochr yn ochr â'r Bil a fydd ar gael i'r holl awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y dulliau gorfodi a ddefnyddir yn gyson drwy Gymru. B
60.	Mae'r statudau presennol yn darparu gormod o warchodaeth i'r rheini sy'n gadael eu ceffylau ac yn rhoi i bori'n anghyfreithlon. Perchnogion y tir yw'r dioddefwyr ac felly ni ddylent gael eu dal yn gyfrifol am les, bwydo, adnabod, symud a gwaredu ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon (Deddf Lles Anifeiliaid 2006).	Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod y perchnogion tir hynny sy'n dioddef yn sgîl pori anghyfreithlon wedyn yn cael eu dal yn gyfrifol am geffylau sydd ar eu tir o dan ofynion Deddf Lles Anifeiliaid 2006.	Rh	Drwy gyflwyno'r Bil arfaethedig, rhoddir cymorth i berchnogion tir symud anifeiliaid sy'n pori'n anghyfreithlon oddi yno oherwydd bydd yn cynnig darpariaethau i'w galluogi i weithio gyda'r Awdurdod Lleol i atafaelu a phowndio ceffylau sydd ar eu tir. B
61.	Sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu dal yn gyfrifol am anwybyddu a chaniatáu i'r arfer ddigwydd ar dir y cyngor. Mae osgoi camau gorfodi wedi caniatáu i gymuned y Sipsiwn a Theithwyr guddio y tu ôl i draddodiad fel esgus dros achosi dioddef i anifeiliaid, eu gadael a'u	Mae llawer o Awdurdodau Lleol wedi'i chael yn anodd delio â'r mater oherwydd cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth bresennol. Bydd y Bil arfaethedig yn rhoi'r pwerau angenrheidiol iddynt ddod o hyd i ateb i lawer o'r problemau y mae	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.

	hesgeuluso.	awdurdodau wedi'i chael yn anodd delio â hwy yn y gorffennol.		
62.	Archwilio pasbortau'n rheolaidd i sicrhau bod cludwyr yn cydymffurfio.	Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r drefn ac, ar y cyd â'r heddlu, fe allant stopio cludwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio o ran nifer o faterion, gan gynnwys adnabod ceffylau.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
63.	Pan fydd ceffylau'n cael eu mewnfario / hallfario, mae angen i'r porthladdoedd gyflawni rôl monitro gan fonitro ac archwilio ceffylau'n drwyadl ar ffiniau, ymwneud mwy ag awdurdodau lwerddon gyda golwg ar symud ceffylau 'cobiau sipsiwn' rhwng gwledydd ac adolygu'r cytundeb teir-ran.	Nid rôl awdurdodau'r porthladdoedd yw monitro nifer y ceffylau sy'n cael eu mewnfario. Fodd bynnag, mae gan Feistr y Llong ddyletswydd dros ei gargo ac am sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r Cytundeb Teir-ran sy'n caniatáu symud ceffylau rhwng Ffrainc, yr Unol Daleithiau a Gweriniaeth Iwerddon wrthi'n cael ei adolygu.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
64.	Gwella'r gallu i olrhain ceffylau a allforir drwy drafod gydag AHVLA ac asiantaethau gorfodi eraill faint o geffylau sy'n cael eu hallfario heb ficrosglodyn.	Nid oedd gofyn gosod microsglodyn mewn ceffylau a anwyd ac y rhoddwyd pasbort iddynt cyn mis Gorffennaf 2009. Dim ond y ceffylau hynny sydd wedi cael pasbort am y tro cyntaf ers mis Gorffennaf 2009 sy'n gorfod cael microsglodyn fel rhan o'r broses adnabod.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
65.	Cyflwyno pwerau i atal symudiadau lle nad oes modd adnabod yr anifeiliaid	Mae unrhyw un sy'n symud ceffyl nad oes modd ei adnabod yn cyflawni trosedd o dan Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.

66.	Rhoi sganwyr i bob awdurdod lleol	Rhoddwyd sganwyr i bob awdurdod lleol (i gydymffurfio â gofynion Adnabod Defaid Ewrop).	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
67.	Darparu cyllideb i awdurdodau lleol er mwyn iddynt dalu elusennau cofrestredig / cyrff lles i ddarparu cyfleusterau cadw mewn argyfwng fel nad yw ceffylau'n cael eu gosod mewn pwnd sy'n anaddas at y diben.	Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu ac ariannu cyfleusterau diogel i gadw anifeiliaid.	D	Gweler 49, C
68.	Dargyfeirio arian o Glastir /SPS i elusennau ceffylau cydnabyddedig er mwyn iddynt ehangu eu gallu i achub ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon. Adolygu i ba raddau y mae rhywun yn cydymffurfio â gofynion Glastir / trawsgydymffurfio lle y defnyddir ceffylau i bori o dan un o gynlluniau Glastir. Cynnwys arferion bridio o dan Glastir a thrawsgydymffurfio.	Cynllun rheoli tir yw Glastir a'i nod yw cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru o dan Gyfarwyddbau Dŵr a Chynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd. Ni chaniateir inni o dan y rheoliad ddargyfeirio arian i elusennau lles i'w helpu i achub ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon. Bydd y sawl sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru yn gorfod cydymffurfio â meini prawf llym a dim ond i'r rheini sy'n gallu dangos eu bod yn cyflawni'r meini prawf hynny y telir arian.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.

AWGRYMIADAU AD HOC

Yr argymhellion hynny nad oeddent yn cydweddu'n dwt ag unrhyw un o'r categorïau uchod.

	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru	Derbyniwyd Do / Naddo / Yn Rhannol	Camau i'w cymryd a'r amserlen (Tymor Byr / Canolig / Hir)
69.	Ymestyn y cynllun Gât Ddiogel fel sydd ar waith ym Mro Morgannwg a rhoi cynlluniau gwarchod cymdogaeth ar waith i fynd i'r afael â cham-drin mewn ardaloedd lleol.	Cynllun sy'n cael ei gydnabod yn arfer gorau gan Lywodraeth Cymru yw'r Cynllun Gât Ddiogel ac mae'n syniad y mae angen ei hyrwyddo mewn ardaloedd lle y gwelir bod pori anghyfreithlon a gadael ceffylau'n broblem.	D	Bydd yr awgrym hwn yn rhan o'r Cynllun Cyfathrebu sy'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol. H
70.	Bod y diwydiant ceffylau'n talu ardoll i Awdurdodau Lleol i'w helpu gyda chostau cynyddol lles ceffylau.	Mae sut y delir a chostau yn y diwydiant amaethyddol yn destun trafodaeth.	Rh	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn yn rhan o'r Agenda Rhannu Cyfrifoldeb a Chostau. H
71.	Dylai Llywodraeth Cymru gyfathrebu â'r rheini yr amheuir eu bod yn berchen ar geffylau sy'n pori'n anghyfreithlon i'w hatal rhag gwneud hynny ac i fygwth camau cyfreithiol fel sy'n briodol.	Mae'r cyrff gorfodi a'r elusennau lles i gyd yn cyfrannu at gyfleu'r negeseuon hyn i'r sawl sy'n gadael i'w hanifeiliaid bori'n anghyfreithlon gan wybod nad yw hynny'n iawn.	Rh	Bydd y Cynllun Cyfathrebu sy'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol yn sicrhau bod perchnogion ceffylau'n cael eu gwneud yn ymwybodol o'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth ac o oblygiadau peidio â chydymffurfio a'r ddeddfwriaeth honno. B
72.	Erlyn perchnogion lle nad yw'r tir a ddefnyddir i gadw ceffylau'n cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel (ffensio a diogelwch)		Rh	Nod y cynllun Cyfathrebu a gyhoeddir ochr yn ochr â'r broses ddeddfwriaethol fydd gwneud pobl yn fwy ymwybodol

				o atebolrwydd cyfreithiol gyda golwg ar ddyletswydd perchennog i gadw'u ceffylau'n ddiogel. B
73.	Hyrwyddo defnyddio cig ceffyl yn y fasnach bwyd anifeiliaid anwes yn hytrach na difetha stociau pysgod.		Rh	Mae hyn yn cael ei weld yn fater i'r diwydiant ac i berchnogion ceffylau unigol yn hytrach nag i Lywodraeth Cymru. H
74.	Categoreiddio ceffylau'n anifeiliaid amaethyddol ac felly byddant yn dod o dan reolau olrhain mwy llym. Gwahaniaethu rhwng ceffylau 'anwes' a 'cheffylau bwyd' lle mae mwy o angen gallu eu holrhain.	Mae'r Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd yn gwahaniaethu rhwng ceffylau sydd wedi'u cofrestru a'r rheini sy'n cael eu bridio ar gyfer bridio a chynhyrchu (ceffylau i'w difa) o dan delerau'r rheoliadau Adnabod Ceffylau. Fodd bynnag, nid yw'r Deyrnas Unedig yn cydnabod bod y ceffyl yn anifail amaethyddol. Er mwyn gwneud hynny, byddai angen ymgynghori â'r diwydiant i gyd a phe cytunid ar hynny, byddai gofyn newid y ddeddfwriaeth drwy'r Deyrnas Unedig.	N	Ni chredir ei bod yn briodol cymryd camau pellach ar hyn o bryd.
75.	Defnyddio ffilmio cudd ar Deledu Cylch Cyfyng.	Bydd pori anghyfreithlon yn aml yn digwydd mewn ardaloedd gwledig iawn sy'n golygu nad yw'n ymarferol defnyddio teledu cylch cyfyng. Mae'n anodd hefyd i rywun ragweld ymhle y bydd y ceffylau.	N	Mater i'r awdurdodau gorfodi unigol ei ystyried yw hyn o ran eu hymateb hwy eu hunain i'r broblem, yn hytrach nag i Lywodraeth Cymru.
76.	Treblu'r dirwyon ar gyfer ceffylau sy'n crwydro	Nid oes gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd yn y maes hwn.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd

				camau pellach ar hyn o bryd.
77.	Bod holl dir Awdurdodau Lleol nad yw'n cael ei ddefnyddio'n cael ei ddarparu'n dir pori ar gyfer ceffylau a atafaelwyd. Atal yr arian a roddir ar gyfer tir 'sydd wedi'i neilltuo' a defnyddio'r tir hwnnw i geffylau a atafaelwyd bori arno. Mynd at sefydliadau cadwraeth i ofyn iddynt ddefnyddio'r ceffylau hynny sydd wedi'u hatafael i bori tir at ddibenion cadwraeth.	Mae nifer o broblemau ynghlwm wrth ddefnyddio tir diffaith awdurdodau lleol, gan gynnwys y cyfrifoldebau cyfreithiol ac atebolrwydd posibl perchnogion y tir. Mae'n ddyletswydd ac yn gyfrifoldeb ar berchnogion i ofalu am eu stoc nhw'u hunain. Prin yw'r cyfleoedd ar gyfer pori at ddibenion cadwraeth ac felly nifer fach o geffylau sydd eu hangen ar gyfer hyn.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
78.	Bod awdurdodau lleol yn sefydlu prosiectau a fyddai'n gweld Awdurdodau Lleol a grwpiau cymunedol / gwirfoddol yn cysylltu â'i gilydd i greu gwarchodfeydd ac i ddarparu ar gyfer gofal tymor hir. Gallai cynlluniau o'r fath greu cyfle ym maes twristiaeth a darparu incwm i gynnal prosiectau fel hyn.	Mae sefydlu a chynnal gwarchodfeydd neu elusennau lles y tu allan i gwmpas swyddogaethau craidd awdurdodau lleol ac felly nid ydynt yn cael eu hariannu i ddarparu cyfleusterau o'r fath. Ni fyddent ychwaith yn gallu darparu'r arbenigedd a'r gofal arbenigol sydd ei angen ar lawer o'r ceffylau hyn. Mae'r Elusennau Ceffylau wedi rhoi cymorth sylweddol, ond sylweddolir erbyn hyn bod mwyafrif y cyrff hyn yn gweithio hyd eu heithaf ac nad oes ganddynt ond lle i'r achosion lles mwyaf difrifol.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
79.	Sefydlu cynllun tebyg i hwnnw sydd yn yr	Mae cynllun wedi'i sefydlu yn ardal	N	Ni chredir bod angen i

	Unol Daleithiau 'achubwch y Mustang', lle bydd ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon yn cael eu defnyddio mewn prosiectau cymdeithasol i fynd i'r afael â throseddu, iechyd meddwl a cham-drin alcohol a chyffuriau	Abertawe lle bydd ceffylau'n cael eu defnyddio at ddibenion ailsefydlu. Fodd bynnag, dim ond nifer fach o geffylau y gellid eu defnyddio at ddibenion o'r fath ac mae llawer o'r ceffylau a ganfyddir yn pori'n anghyfreithlon yn anifeiliaid mawr lled-wyllt ac efallai na fyddai'r rhain yn addas ar gyfer prosiectau o'r fath oherwydd eu natur.		Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
80.	Ymgyrch dan arweiniad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a marchnata cig ceffyl er mwyn dod o hyd i ddefnydd ar gyfer ceffylau nad oes ar neb eu heisiau.	Nid gwaith Llywodraeth Cymru yw creu marchnad. Yn hytrach ei gwaith yw cefnogi'r diwydiant pan fydd cyfle'n codi yn y farchnad.	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.
81.	Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyhoeddusrwydd i faint o arian sy'n cael ei dalu o'r pwrs cyhoeddus i gymdeithasau ceffylau o dan gynlluniau rheoli tir. Atal yr holl ariannu gan fod yr arian yn cael ei roi i'r rheini sy'n gorfridio ar y sail eu bod yn darparu gwasanaeth amgylcheddol. Dargyfeirio'r arian i faes lles anifeiliaid.	Telir yr arian drwy gynllun rheoli tir Llywodraeth Cymru, Glastir, a hynny i ddeiliaid contractau sy'n cadw at gyfnodau gwaharddedig dros y gaeaf neu'n cyfyngu ar lefelau eu stoc. Gwneir hyn drwy gyfyngu ar nifer yr unedau da byw, gan seilio hynny ar y mathau o lystyfiant sydd ar y tir comin. Pennir gwahanol werthoedd ar gyfer unedau da byw sy'n pori, gan gynnwys ar gyfer ceffylau a merlod, a dibynnu ar ofynion maeth pob math o anifail. Gwneir y taliadau i'r Cymdeithasau Pori perthnasol a gwaith y Gymdeithas yw penderfynu sut y	N	Ni chredir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach ar hyn o bryd.

		defnyddir y taliad. Yn hynny o beth, mae taliadau tir Comin dan gynllun Glastir yn golygu bod modd gwneud taliadau i gominwyr sy'n rhoi i geffylau i bori yno. D nod yw sicrhau trefniadau pori cynaliadwy sydd o fudd i agweddau amgylcheddol y Tir Comin, yn hytrach na gwneud taliadau ar gyfer pori gan fath penodol o anifail. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gosod contractio ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol heb boeni am les anifeiliaid. Mae lles anifeiliaid yn dod o dan Ofynion Rheoli Statudol ac os bydd rhywun yn torri'r rhain, byddant yn cael eu cosbi o dan drefniadau trawsgydymffurfio. Mae torri'r rheolau trawsgydymffurfio hefyd yn golygu bod rhywun yn torri rheolau cynllun Glastir ac felly, bydd deilydd contract yn agored i gael ei gosbi yng nghyswllt taliadau o dan Glastir ac o dan y Cynllun Taliad Sengl os bydd yn torri unrhyw rai o'r gofynion.		
82.	Cyflwyno cyfnodau diogel ar gyfer Phenylbutazone rhwng gweinyddu a derbyn i'r gadwyn fwyd ddynol.	Nid yw hyn yn bosibl. Mae gan y Deyrnas Unedig gymal eithrio gan Ewrop sy'n caniatáu i'r diwydiant Ceffylau ddal i ddefnyddio	N	Ni all Llywodraeth Cymru gymryd camau pellach.

		Phenylbutazon ei gynorthwyo i sicrhau lles y boblogaeth geffylau hŷn.		
--	--	---	--	--